# Cwestiynau allweddol i'w hystyried wrth weithredu cynllun arsylwi addysgu gan gymheiriaid

Mae'r cwestiynau adfyfyriol canlynol wedi'u datblygu o'r prosiect gwelliant QAA a ariennir gan CCAUC ar Arsylwi Addysgu gan Gymheiriaid a gynhaliwyd yn 2022-23. Arweiniodd y prosiect at adroddiad a gweminar i rannu arfer. Mae'r cwestiynau hyn yn cynrychioli meysydd i'w hystyried wrth ddatblygu cynlluniau arsylwi cymheiriaid (neu debyg) newydd neu adolygu rhai sy'n bodoli eisoes.

## 1 Beth ddylid galw'r cynllun arfaethedig?

Gall y term arsylwi fod ag islais negyddol yn ymwneud â pherfformiad. Gall ymgynghori eang helpu i sefydlu perchnogaeth ac ymgysylltiad staff wrth ystyried enw ar gyfer y cynllun.

## 2 Beth yw ei ddiben allweddol?

Mae ffocws cynyddol ar draws y DU ar fodel adfyfyriol cydweithredol sy'n cael ei ysgogi gan gymheiriaid, sy'n gyfrinachol ac anfeirniadol ei natur. Nid yw arsylwi gan gymheiriaid fel arfer yn rhan o broses rheoli perfformiad, ond mae'n ffurfiannol ac yn ddatblygiadol ei natur.

## 3 A fydd y cynllun arsylwi cymheiriaid yn cael ei gynnal yn ganolog neu'n lleol o fewn cyfadrannau neu ysgolion?

Mae'r adolygiad o ddarparwyr a reoleiddir ac a ariennir yng Nghymru yn awgrymu bod lleoli elfennau gweinyddol cynllun mewn uned ganolog fel Uned Addysgu a Dysgu yn sicrhau mwy o gysondeb o ran dull gweithredu ac ymgysylltu yn gyffredinol. Mae elfennau gweithredol yn cael eu datblygu'n aml gan rwydwaith o ddeoniaid cyswllt neu arweinwyr addysgu a dysgu mewn cyfadrannau.

## 4 Pwy fydd yn cael eu harsylwi a phwy fydd yn ymgymryd â rôl arsylwr?

Dylid ystyried cynnwys unrhyw staff sy'n cefnogi'r profiad dysgu. Fel arfer, mae disgwyl i bob aelod o staff addysgu llawn-amser/rhan-amser gymryd rhan mewn cynllun arsylwi cymheiriaid, ond dylid hefyd ystyried sawl categori arall o staff, megis y rheiny yn y gwasanaethau proffesiynol sy'n cynorthwyo myfyrwyr yn uniongyrchol yn ogystal ag ôl-raddedigion sy'n addysgu. Gwirfoddolwyr yw arsylwyr mewn rhai darparwyr; mae darparwyr eraill yn disgwyl i'r holl staff perthnasol gael eu harsylwi ac i ymgymryd â rôl arsylwr.

## 5 Pa mor aml fydd arsylwi yn digwydd?

Mae llawer o ddarparwyr yn arsylwi pob un o'u staff yn flynyddol, ond mae eraill yn gweithio ar gylchred dwy flynedd neu'n dewis arsylwi staff profiadol yn llai aml na staff newydd. Mae angen i'r broses fod yn un barhaus, fel nad yw'n cael ei gweld gan staff fel digwyddiad

'unwaith ac am byth'. Mae angen i fodelau dyrannu llwyth gwaith gydnabod yr amser sydd ei angen i ymgymryd ag ymarferiad o'r fath yn briodol, boed mewn parau neu mewn grwpiau bach.

## 6 Pa agweddau ar addysgu fydd yn cael eu cwmpasu gan arsylwi cymheiriaid?

Mae deialog rhwng cymheiriaid weithiau'n cael ei weld yn llai brawychus nag arsylwi cymheiriaid, ac mae adnoddau darparwyr yn aml yn pwysleisio pwysigrwydd cynnwys ystod eang o gyfleoedd am 'ddeialog broffesiynol' sy'n cwmpasu addysgu yn ei ystyr ehangaf, yn ogystal ag arsylwi mwy traddodiadol yn yr ystafell ddosbarth. Mae unrhyw weithgaredd addysgol sy'n hwyluso dysgu yn briodol i'w ystyried. Gall arsylwi trawsddisgyblaethol helpu i annog ffocws ar addysgeg, yn hytrach na meysydd pwnc unigol, a thrwy hynny efallai helpu i ddileu rhwystrau penodol.

## 7 Sut y gellir datblygu ymdeimlad o ymddiriedaeth a diwylliant o weithrediad ymhlith staff?

Mae cynnig dewis o opsiynau datblygiadol fel rhan o gynllun a galluogi unigolion i ddewis pwy y dymunant weithio gyda nhw yn ddwy ffordd y gellir annog profiadau adfyfyriol, grymusol. Mae sefydlu'r ethos a'r meddylfryd diwylliannol cywir yn bwysig o'r cychwyn cyntaf.

## 8 Pa fath o gymorth a ddarperir i arsylwyr a'r sawl sy'n cael eu harsylwi?

Mae darparwyr ledled y DU yn cynnig amrywiaeth o hyfforddiant ac arweiniad sy'n cynnwys cyrsiau ar-lein a thrafodaethau grŵp wyneb-yn-wyneb. Mae'r defnydd o senarios ac astudiaethau achos yn boblogaidd ac mae templedi dewisol ar gyfer arsylwi gydag awgrymiadau allweddol yn aml yn darparu fframwaith defnyddiol. Mae awgrymiadau ar gyfer darllen pellach weithiau'n cael ei gynnwys mewn llawlyfrau.

## 9 A fydd y model yn helpu i alluogi rhannu arfer arloesol yn ehangach?

Gall arsylwi addysgu gan gymheiriaid gyfrannu'n sylweddol at dwf staff. Gall rhannu arfer arloesol drwy ysgolion, cyfadrannau neu gynadleddau dysgu ac addysgu oll gyfrannu at wella dysgu ac addysgu ar draws disgyblaethau yn barhaus. Mae creu gofod sefydliadol penodol ar-lein yn ffordd boblogaidd o rannu arfer da ar draws yr holl staff.

## 10. A allai myfyrwyr gyfrannu at y cynllun arsylwi addysgu gan gymheiriaid?

Mae gan gyfranogiad cynyddol llais y myfyriwr mewn cynlluniau o'r fath y potensial i wella gwerth arsylwi cymheiriaid adfyfyriol. Mae sawl darparydd ar draws y DU yn ystyried ffyrdd o gynnwys myfyrwyr mewn arsylwi cymheiriaid.

Cyhoeddwyd - Medi 2023

© Yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch 2023
Rhifau elusen gofrestredig 1062746 a SC037786
[www.qaa.ac.uk](http://www.qaa.ac.uk)